## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## Craffu ar Filiau a gyflwynwyd yn ystod tymor yr hydref

### Diben

1. Gwahodd y Pwyllgor i ystyried ei ddull o graffu ar y Biliau y cyfeirir atynt ym mharagraff 2 isod.

### Cefndir

2. Cafodd y Biliau a ganlyn eu cyflwyno yn yr hydref:

| | **Bil** | **Yr Aelod sy'n Gyfrifol:** | **Y dyddiad adrodd ar gyfer y Pwyllgor Pwnc** | **Yn cynnwys pwerau i wneud gorchmynion a rheoliadau** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Y Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru) | Peter Black AC | 22 Chwefror 2013 | Ydy |
| 2 | Y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) | Mick Antoniw AC | 8 Mawrth 2013 | Ydy |
| 3 | Y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) | Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau | 22 Mawrth 2013 | Ydy |
| 4 | Y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) | Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 22 Mawrth 2013 | Ydy |

3. O dan Reol Sefydlog 21, mae rôl y pwyllgor yn cynnwys ystyried a chyflwyno adroddiad ar:

(a) pa mor briodol yw darpariaethau mewn Biliau'r Cynulliad sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol;

(b) unrhyw fater deddfwriaethol cyffredinol sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, neu sy'n ymwneud â'r cymhwysedd hwnnw.

### Materion i'w hystyried

4. Bydd nodiadau briffio cyfreithiol ar bwerau i wneud gorchmynion a rheoliadau sydd wedi'u cynnwys mewn Biliau yn cael eu rhoi i Aelodau.

5. Bydd Aelodau am ystyried a ydynt yn dymuno galw'r Aelodau sy'n gyfrifol i roi tystiolaeth mewn perthynas â'u Biliau.

6. Bydd Aelodau hefyd am ystyried a ydynt yn dymuno galw'r Gweinidog perthnasol i roi tystiolaeth mewn perthynas â Biliau y mae Aelodau'r meinciau cefn yn gyfrifol amdanynt.

**Cam i'w gymryd**

7. Gwahoddir yr Aelodau i gytuno ar y dull o gasglu tystiolaeth mewn perthynas â'r Biliau uchod.